# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*Ymgynghorydd Annibynnol*

*ar Safonau Ymddygiad i*

*Aelodau'r Cynulliad*

*Gwybodaeth i Ymgeiswyr*

# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

**Diolch i chi am ofyn am y pecyn hwn, sy'n eich gwahodd i wneud cais am swydd Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad i Aelodau'r Cynulliad. Wedi i chi ddarllen yr wybodaeth yn ofalus, gobeithiwn yn byddwch yn penderfynu gwneud cais am y swydd.**

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

1. Sefydlwyd y Swyddfa Gymreig ym 1965, yn dilyn creu Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym mis Hydref 1964. Ers hynny, mae nifer cynyddol o swyddogaethau wedi'u trosglwyddo o Whitehall. Dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru, etholwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 1999, ac mae wedi dod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r swyddogaethau a oedd yn rhan o gyfrifoldebau Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'r Swyddfa Gymreig, yn y gorffennol. Mae'n cynrychioli holl bobl Cymru, ac yn gorff atebol wedi'i ethol yn ddemocrataidd yn gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus pwysig Cymru. Mae ganddo'r pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth i fodloni anghenion Cymru. Bydd cysylltiadau cryf â San Steffan a Whitehall yn sicrhau bod buddion Cymru yn parhau i gael eu hystyried wrth lunio deddfwriaeth gynradd. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn parhau i fod yn aelod o'r Cabinet, ac mae Cymru yn dal i anfon yr un faint o Aelodau Seneddol i Senedd San Steffan.

2. Nod y Cynulliad yw cynyddu llewyrch economaidd Cymru ac ansawdd bywyd holl bobl Cymru, hybu cynhwysiant cymdeithasol ac ymestyn atebolrwydd democrataidd. I geisio cyflawni hynny, mae ganddo gyllideb flynyddol o tua £7.5 biliwn.

*Trefniadau Cwyno'r Cynulliad a'r Ymgynghorydd Annibynnol*

3. Mae rheol sefydlog 16 y Cynulliad yn ymwneud ag ymchwilio i gŵynion a rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol.

4. Mae paragraff 16.3 yn gofyn am benodi person annibynnol i roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar unrhyw fater yn ymwneud â'r Rheolau Sefydlog. Gall y Pwyllgor hefyd, yn ogystal â phenodi ei ymgynghorydd ei hun, wahodd y sawl a benodir gan y Cynulliad i ymchwilio i faterion ffeithiol sy'n codi o unrhyw fater a gyflwynir ger ei fron. Mae gweithdrefnau'r Cynulliad yn ystyried y ffaith y gall rhai cwynion, os gellir cyfiawnhau hynny, nodi bod trosedd wedi'i chyflawni, fel rheol dan Adran 72(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r gweithdrefnau yn darparu ar gyfer nodi cyhuddiadau o'r fath, a hysbysu'r heddlu, ac osgoi rhagfarnu achosion troseddol.

5. Mae nodweddion allweddol a goblygiadau'r rheolau sefydlog fel a ganlyn:

- penodir yr Ymgynghorydd Annibynnol gan y Cynulliad cyfan ac felly mae'n atebol yn y pen draw i'r Cynulliad cyfan;

- mae'r Ymgynghorydd Annibynnol yn gorfod cynghori a chynorthwyo'r Llywydd ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau; trwy wahoddiad y bydd yr Ymgynghorydd yn gweithredu ar ran y Pwyllgor, ac fe gyfyngir hynny i ymchwilio i faterion ffeithiol;

- mae'n rhaid i unrhyw gŵyn yr ymchwilir iddi gan y Pwyllgor Safonau gael ei chyfeirio yn y lle cyntaf i'r Llywydd yn ei rôl o oruchwylio safonau ymddygiad cyffredinol yn y Cynulliad;

- mae'r Rheolau Sefydlog yn gofyn i'r Pwyllgor Safonau, ar amser priodol mewn ymchwiliad, ganiatáu i Aelod sy'n destun ymchwiliad, gyflwyno sylwadau llafar neu ysgrifenedig i'r Pwyllgor;

- gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ganlyniad ei ymchwiliad, gan wneud argymhelliad ynglŷn â'r camau i'w cymryd gan y Cynulliad.

- ar sail adroddiad y Pwyllgor, gall y Cynulliad wahardd Aelod o'r Cynulliad am gyfnod penodedig. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ni all yr Aelod gymryd rhan mewn unrhyw drafodion, ac ni fydd yn derbyn cyflog.

*Prif rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol yw:*

6. Rhoi cyngor a chymorth i'r Cynulliad a'r Llywydd ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad aelodau, a thrwy wahoddiad Pwyllgor Safonau'r Cynulliad, ymchwilio i faterion ffeithiol sy'n codi o gŵynion a gyfeirir i'r Pwyllgor.

*7.* Y prif ddyletswyddau yw:

- Cynnal ymchwiliad cychwynnol i gŵynion, gan gynnwys nodi'r rhai lle mae angen cysylltu â'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron

- Rhoi cyngor ymarferol ac annibynnol ar ddelio â chwynion unigol a chyflwyno adroddiad wedi'i resymu gydag argymhelliad ar ddiystyru'r mater neu ymchwilio ymhellach iddo.

- Cynnal ymchwiliad manwl ar ran y Pwyllgor, os oes gofyn ymchwilio ymhellach i'r mater;

- Casglu tystiolaeth ddogfennol, ysgrifenedig a llafar fanwl: delio'n uniongyrchol ag Aelodau, y sawl a wnaeth gŵyn ac eraill wrth baratoi tystiolaeth o'r fath.

- Paratoi adroddiad ffeithiol pellach ar gyfer y Pwyllgor a chyflwyno tystiolaeth.

- Mynychu cyfarfodydd y pwyllgor i egluro ffeithiau.

- Cynghori'r Llywydd ar faterion eraill yn ymwneud â safonau Aelodau.

- Cynorthwyo'r Pwyllgor wrth baratoi ei adroddiad blynyddol i'r Cynulliad.

*TELERAU AC AMODAU PENODI*

8. Gwneir y penodiad am gyfnod o 3 blynedd yn y lle cyntaf, ond gellir ei derfynu trwy benderfyniad y Cynulliad. Swydd newydd yw hon, a bydd y Cynulliad am i'r ymgeisydd llwyddiannus gychwyn ar y gwaith cyn gynted ag y bo modd wedi'r broses recriwtio. Rhagwelir mai tua mis Ebrill 2000 fydd hynny.

9. Ni fydd yr ymgynghorydd yn aelod o staff y Cynulliad yn unol â diffiniad adran 34 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Ar 24 Tachwedd 1999, penderfynodd y Cynulliad y byddai'r penodiad yn cael ei wneud yn unol â threfniadau i'w llunio gan y Llywydd, gan ystyried egwyddorion Cod Ymarfer y Cynulliad ar Benodiadau Cyhoeddus.

10. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, adolygir y swydd er mwyn penderfynu a yw lefel y dyletswyddau a'r ymrwymiad amser yn dal i fod yn briodol. Gall yr Ymgynghorydd gynnig addasiadau cyn hynny yn sgil ei asesiad o ofynion y swydd.

*Cyflog ac Oriau*

11. Telir cyflog o £300 y dydd ynghyd â swm "cadw" blynyddol o £3,000. Telir costau teithio a threuliau yn unol â chyfraddau staff y Cynulliad Cenedlaethol.

12. Bydd gofyn i'r sawl a benodir weithio'r oriau angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau'r swydd. Rhagwelir na fydd yr ymrwymiad amser ar gyfartaledd dros gyfnod o flwyddyn yn fwy na 2-3 diwrnod y mis, ond gallai hynny amrywio yn ôl cais y Llywydd neu'r Pwyllgor.

*Cefnogaeth ac Ystafell*

13. Bydd yr ymgynghorydd wedi'i gysylltu â rhwydwaith TG y Cynulliad, a gall felly weithio o gartref, neu un o Swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd staff Swyddfa'r Llywydd yn cefnogi'r ymgynghorydd.

*Y PERSON*

14. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gael gallu deallusol o'r radd flaenaf. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r sawl a benodir fod yn onest, gan ennill hyder a ffydd Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn ehangach. Byddai profiad eang o'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn hynod fanteisiol.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu ar sail cydraddoldeb y Gymraeg a'r Saesneg, felly byddai'r gallu i ystyried tystiolaeth a dogfennau yn Gymraeg a Saesneg yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae cyfleusterau cyfieithu ar gael.

*15. Bydd gofyn i'r sawl a benodir:*

- gael dealltwriaeth ddofn o gefndir safonau bywyd cyhoeddus, ynghyd â'r polisïau a'r materion dan sylw:
- gael y gallu i ddadansoddi a gwerthuso data cymhleth;
- gael doethineb barn;
- fod yn wleidyddol ddiduedd, ac yn ddiduedd o ran diddordebau sectorol, a gallu ennyn hyder yn y Cynulliad a thu hwnt;
- ddeall cyfle cyfartal a materion hawliau dynol;
- feddu ar fedrau cyfathrebu rhagorol, gyda phrofiad eang o ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau ar lefelau uchel.

*DETHOL*

16. Bydd gofyn i chi roi cymaint o dystiolaeth ag y bo modd o gryfder eich cais ym mhob cam o'r broses ddethol. Cam cyntaf y broses fydd edrych drwy'r ffurflenni cais (er eich bod yn cael eich cynghori i roi CV diweddar, dylech lenwi'r ffurflen gais hefyd). Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn y cam hwn yn cael gwahoddiad i ddod i gyfweliad. Cynhelir y cyfweliad gan banel o hyd at chwech o bobl, gan gynnwys aseswr allanol ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, dan gadeiryddiaeth Llywydd y Cynulliad. Bydd y cyfweliadau'n cynnwys cyflwyniad byr i'r Bwrdd Dethol. Mae'n debygol y cynhelir y cyfweliadau yn Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd, ym mis Chwefror.

*CAIS*

17. Dylid dychwelyd ffurflenni cais wedi'u llenwi at Ms J M Grant, Dirprwy Glerc y Pwyllgor Safonau, Y Swyddfa Gyflwyno, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA erbyn diwedd y dydd ar ***17 Ionawr 2000***, ffôn 01222 898207 ac e-bost julie.grant@Wales.GSI.gov.uk.

*YMHOLIADAU PELLACH*

18. Mae croeso i chi gysylltu â Julie Grant gydag ymholiadau pellach.